Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

31 Ionawr 2022

Annwyl Adrian a Lindsay,

Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2022-23

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau bod y Pwyllgor wedi trafod a chymeradwyo Cynllun Ffioedd 2022-23 yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2022.

Nododd y Pwyllgor mai dyma'r ail flwyddyn yn olynol nad yw Archwilio Cymru wedi cyflwyno cynllun ffioedd drafft ochr yn ochr â'r Amcangyfrif. Deallwn fod rhesymau eithriadol dros ohirio'r ymgynghoriad ar ffioedd ar gyfer 2021-22 oherwydd y pwysau uniongyrchol yr oedd cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu yn sgil y pandemig. Fodd bynnag, mae'r rhesymau dros beidio â darparu cynllun ffioedd drafft ochr yn ochr â'r Amcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn aneglur a byddem yn ddiolchgar pe gallech esbonio'r rheswm dros yr oedi.

Rydym yn croesawu eich bwriad i gynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol yn ystod haf 2022 i ganiatáu i gynllun ffioedd drafft gael ei gynnwys gydag Amcangyfrif 2023-24, gan y gallai absenoldeb cynllun ffioedd drafft beryglu gallu'r Pwyllgor i gymeradwyo amcangyfrifon yn y dyfodol.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.